30 years' experience caring for clients' dogs

To view our kennels phone 01267 281628

or 07717 345277

or email www.theolddairydoghotel.co.uk

Gwyrdd Enterprises

Property Maintenance - Household Repairs

Patio Cleaning - Drain unblocking

Carpet, Rug and Upholstery Cleaning

Car Battery Diagnosis, Jumpstarting &

Replacement.

TV and computer Set Up

If you can't see what you need just ask

Contact Jon 07943 948173

Based in Llanpumsaint

Gwyrddenterprises@gmail.com



Hafan Holistaidd

Holistic Heaven

Adweitheg / Reflexology

Tyluno / Aromatherapy Massage

Indian Head Massage

Thermal-auricular (Ear candling)

Reiki

Meleri Brown MAR

mels.brown@hotmail.co.uk 07855488660

Therapy Cyflenwol – Complementary Therapist

Penllwynuchel, Nebo, Llanpumsaint, Caerfyrddin,

SA33 6LT

Gwalia Garage

Peniel Road Rhydargaeau

MOT, servicing, tyres, repairs

Tel: (01267) 253599

JRB & K Thomas

Peniel Road Carms SA32 7DR



Virtue Holistics

Holistic therapies

Reflexology

Indian head massage

Functional facial.

Megan Williams 07717763460.

Local Business? You can advertise here for £50

Includes an advert in Village Voice for 6 issues, plus a webpage linked to yours on

www.llanpumsaint.org.uk, or just £5 an issue for advertising in Village Voice.

Contact Carolyn Smethurst 01267 253308 or email info@llanpumsaint.org.uk

Much of the information contained within this newsletter has been provided by the contributors. Whilst every effort has been made to ensure that the information is correct, the committee of Llanpumsaint Community Information Exchange is not responsible nor liable for any actions taken from use of content and the opinions expressed within this newsletter.



Llais y Llan Hydref 2023

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf 26 mis Tachwedd 2023

CRONFA GYMUNEDOL FFERM WYNT
CŌD WIG GORLLEWIN BRECHFA



BRECHFA FOREST WEST WIND FARM
COMMUNITY FUND

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Llais y Llan




Peacock Butterfly ar bentwr pren gan Sarah Moore



Bioamrywiaeth Llanpumsaint
Facebook



Tymor y Ffyngau – Ann Pettitt



Ji-binc – Clare Bishop

Bioamrywiaeth Llanpumsaint

Os ydych â diddordeb mewn bywyd gwylt lleol sbiwch ar dudalen Facebook newydd bioamrywiaeth Llanpumsaint. Y nod yw rhannu lluniau, cofnodi gweled a storiâu ac yn y blaen o fywyd gwylt (adar ac anifeiliaid gwylt yn ardal Llanpumsaint Nebo a Ffynnonhenri).

I'ch Dyddiadur

Yr Unigol

- **Mercher 18fed Hydref - Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Llanpumsaint** - 2 o'r gloch - Yn yr Eglwys - Croeso agored i bawb.
- **Sadwrn 21ain Hydref - noson Deyrnged Elvis Desley** - 7'30 - Neuadd. Tocyn £15 drwy gysylltu â Matthew Jones 07970030679
- **Mawrth 24ain Hydref – Bingo Calan Gaeaf** – Trefnir gan Gymdeithas Athrawon a Rhieni – Neuadd 6 o'r gloch
- **Iau 26ain Hydref - Cywaith Bwydo ein Cymuned - Y cynllun terfynol** - 5.30 hyd 7.30 yn Ystafell Gyfarfod y Neuadd. Croeso!
- **Gwener 27ain Hydref – Codi Canu** yn y Neuadd – 7 hyd 9.30. Dewch a'ch lluniaeth eich hunan £2 i dalu am ein lle
- **Iau 2ail Tachwedd Gwneud Masgiau yn digwydd adeg Hanner Tymor, Neuadd, 10-1** - Croeso i'r plant gydag oedolyn!
- **Gwener 3dd Tachwedd – Codi Canu** yn y Neuadd – 7 tan 9.30 – Lluniaeth eich hunan a £2 am ein lle.
- **Sul 12fed Tachwedd. Gwasanaeth y cofio** yn y Neuadd 10.45 croeso
- **Mawrth 14eg Tachwedd cyfarfod y Cyngor Cymuned** - Neuadd 8 o'r gloch
- **Gwener 17eg Tachwedd Cwis Tan Gwyllt gyda bang** - Neuadd - drysau'n agor am 7 i gychwyn am 7.30. £1 y pen + £5 y bwrdd i dimau hyd at 5 person. Dewch a'ch lluniaeth a'ch gwyltrau. Gwobrau arian parod i'r enillwyr.
- **Sadwrn 18fed Tachwedd - Noson Disco'r Ugeinfed Ganrif** - dros 18oed yn unig. Dawnsio i swm cerddoriaeth o'r 60degau i'r 90degau. Drysau'n agor am 7 i barhau hyn ganol nos. Croeso i bawb am £2 y pen i dalu am y Neuadd. Bar Matthew Palu ac Arlwyto Steve ar gael - neu dewch a'ch moddion eich hunan.
- **Gwener 24ain Tachwedd - Codi Canu** yn y Neuadd o 7 tan 9.30 o'r gloch. Dewch a'ch lluniaeth eich hunan gyda £2 i dalu am y Neuadd.

Uchafbwyntiau Nadolig Llanpumsaint

- Gwener 1af Rhagfyr - **Codi Canu** am 7 o'r gloch yn y Neuadd
- Sadwrn 2ail Rhagfyr Eglwys Llanpumsaint – **Mins peis a gwin** cynnes 0 6 tan 8 o'r gloch
- Gwener 9fed Rhagfyr Goleuo'r **Goeden Nadolig a Charolau** – Neuadd 6 o'r gloch
- Sadwrn 10fed Rhagfyr **Fair Nadolig** – Neuadd (i'w chadarnhau)
- Mawrth 12fed Rhagfyr Neuadd – **Sioe Nadolig Ysgol Llanpumsaint**
- Iau 14eg Rhagfyr Neuadd - **Caneuon Nadolig - Cwtsh Cynnes** – 10 hyd 10 o'r gloch
- Gwener 15fed Rhagfyr - Neuadd - **Cwis Arbennig Parti'r Nadolig** 7 o'r gloch
- Sul 24ain Rhagfyr - **Gorymdaith Sion Corn** - cychwyn o Nantyrnys am 1 o'r gloch
- Sul 31ain Rhagfyr – Neuadd – **Disco ffarwelio a 23 chofleidio'r flwyddyn newydd** – o 7 tan 1 o'r gloch y bore

Digwyddiadau Addoli arferol

- **Eglwys Llanpumsaint** - Boreol Weddi am 9.00 yb bob Sul.
 - **Chwarae gyda Duw** – 3.45 – 4.45 bob prynhawn Dydd Mawrth.
 - **Cylch DOT** - I ieuencid dros 10 oed yn Eglwys Llanpumsaint fel arfer bob Nos Iau O 5.30 tan 7.30.
- **Llanllawddog / Sant Celynin Bronwydd**: 11yb ar y Sul
Parch Canon Dr Matthew Hill LMA Deon 01267 46842 matthewhill@cinw.co.uk
Tudalen Facebook: Llanpumsaint Bronwyddand Llanllawddog Churches
- **Capel Caersalem** Cysylltydd Gwasanaethau Eleri Morris (Ysgrifenyddes) 01267 253895
- **Capel Ffynnonhenri** Cysylltydd Gwasanaethau Danny Davies (Trysorydd) 01267 253418 – Gwyn Nickolas (Ysgrifennydd) 01267 253686
- **Capel Nebo** Cysylltydd Meinir Jones (Ysgrifenyddes) 01267 253532

Gwasanaethau plwyfol wythnosol

- Llun 10.15 – 12.15 Y **Fet Symudol** Neuadd Goffa - **Mae'r gwasanaeth hwn bellach wedi cael ei ganslo.**
- Mawrth 2 – 3.45 Fan y **Swyddfa Bost** – Ger y tafarn
- Mercher
 - **Llyfrgell Symudol**: 10.45 – 11.15 Neuadd Goffa, 11.15 - 11.45 ger Tafarn y Railwe Noder - yn ymweld bob tair wythnos yn unig (**25 Hydref, 15 Tachwedd a 6 Rhagfyr**)
 - Pobydd **Bara i'r tŷ** (07971 740505)
 - Fan **Pysgod i'r tŷ** (07779 987305)
- Iau **Ffrwythau a Llysiau i'r tŷ** (07969 047045)
- Gwener 1-3 Fan y **Swyddfa Bost** ger y Tafarn

Lleoliadau'r Peirannau Adfywio Cofiwch fynd i'n gwefan Llanpumsaint

- Tu fas y Neuadd Goffa - SA33 6BZ
- Tu fas Tafarn y Railway- SA33 6BU
- Ar y wal tu fas fferm Henfryn Ffynnonhenri - SA33 6LD
- Tu fas Festri Capel Nebo - SA33 6HN

I gael rhagor o wybodaeth am eich cyswllt diffibriliwr cymunedol Carolyn Smethurst 01267 253308, carolynsmethurst@btinternet.com

Pwyllgor Lles ac Adloniant (Y Maes Chwarae)

Bu'n bleser yn ddiweddar gyflwyno sicc o £500 i'n helusen ddewisol, sef **Sefydliad DPJ**. Cyflwynwyd hi i Annie James Fferm yr Hafod sy'n gweithio i DPJ ar y Maes Chwarae gan aelodau'r Pwyllgor a rhai defnyddwyr.

Yn sgil y tywydd gwlyb a'r gwres anodd fu i gadw trefn ar y borfa. Felly diolch i Matthew Jones, Carwyn Davies a Dave Clifford am symud yn gyflym gyda pheirannau addas i sicrhau fod y safle'n addas i'r tymor peldroed.

Cynhaliwyd ein Helfa Drysor blynyddol ar Sadwrn y 23ain o Fedi, a bu'n llwyddiant mawr. Diolch yn fawr i Arwel a Donna Thomas am drefnu taith heriol, ac i Glwb Criced Bronwydd am y lluniaeth ddiwedd y dydd. Llongyfarchiadau i Meinir Davies a Sue Butterfield am ennill. Felly edrychwn ymlaen at drefnu Helfa Drysor arall y flwyddyn nesaf.

Gwnaeth y Pwyllgor hefyd gynnal pryd o fwyd Tseiniaidd at godi arian yn y Blue Bell Cynwil Elfed ar nos Sadwrn 4dd o Hydref. Bu'n hyfryd gwneud rhywbeth yn wahanol a'r bwyd yn flasus. Diolchwn i'r gwesty am ein derbyn a gofalu amdanom.

Rydym hefyd yn dechrau paratoi am ein **Taith Siôn Corn** felly rhowch nodyn yn eich dyddiadur am y noswyl Nadolig. Cychwyn eto o Nantyrnys gyda'r bwriad o ysbrydoli'r holl bentref i hwyl y Nadolig gyda chanu carolau ac yna mins pei neu ddwy yn y Neuadd ar y diwedd.

Yn y flwyddyn newydd ar y nos Sadwrn 27ain o Ionawr cynhelir **Noson Rasio Ceffylau** yn y Neuadd. Daw rhagor o fanylion eto ond gwnewch nodyn o'r dyddiad a chadwch lygad agored am fanylion pellach yn y wefan gymdeithasol a Llais y Llan.

Byddem fel Pwyllgor yn estyn croeso i unrhyw un sy'n awyddus i ymuno yn y gweithgareddau codi arian a chynnal y Maes Chwarae. Cysylltwch gyda parcllanpumsaintpark@gmail.com neu siaradwch ag Aaron Jones 07814157946 neu unrhyw aelod o'n Pwyllgor.



Colli John Frongoch



Pan fu John Jones Frongoch farw ar y 31ain o Awst eleni yn 88 oed, collwyd darn arall o'r hen gymdeithas Gymreig sefydlog yn Llanpumsaint. Yn ail o bump o blant (Nansi oedd yr hynaf, yna Mair , Alun ac Emyr) arhosodd John i gynnal y seithfed genhedlaeth i ffermio Frongoch. Wedi llwyddo yn y 11+ yn erbyn ei ewyllys, ef fu'r olaf bron i orfod lletya yn y dref yn wythnosol, cyn i'r gwasanaeth bysiau ddechrau cychwyn drwy Lanpumsaint yn ddyddiol. Gyda ffermio yn ei waed bu'n falch o ffarwelio ag ysgol yn bymtheg oed, i sicrhau i'r Parlwr Godro cyntaf i'r ardal gyrraedd Frongoch.

Pan wnaeth y bechgyn hynaf, mewn oes newydd o ryddid, fenthyg car y teulu ar nos Sadwrn dilynodd y mwyafrif eu trywydd eu hunain. Ond bu nifer ohonom yn ddiolchgar i John (a John Llwyncroes hefyd yn Nebo) am ein tywys i bobman. Gyda lan i hanner dwsin yn rhannu'r sedd gefn o'r NOY94, draw a ni i'r Stag & Ffesant yn Pontarsais, wedyn i'r dre, dawn, sglodion, ac efallai eisteddfod hwyr am ferched. Byddai John yn sicrhau ein bod yn cyrraedd adre ryw bryd cyn y bore.

Cyfarfu ag Elsie, priodi yn 1965, yna ganed dwy ferch iddynt, Catrin ag Elin. Bu teyrnged y ddwy iddo ddydd ei angladd yn dyst o dad arbennig yn llawn cariad a llawenydd. 'Roedd y merched wrth eu bodd yn godro, bwydo lloi a holl weithgarwchy fferm, ond yn llai hapus yn paentio ietau, er bod hanner can ceiniog y tro yn cyrraedd. Meddwl y byd oedd e' hefyd o'r ddwy wyres Sioned ac Alaw gan ddilyn eu hynt yn ofalus.

Wedi ymddeol daeth afiechyd gan orfod wynebu bod yn ddall am gyfnod. Ymateb John am i'r gwasanaeth achub ei olwg fu codi arian iddynt, drwy ddefnyddio ei hoff degan sef ei dractor arbennig y Ffergi Fach ar deithiau amrywiol. Bu rhaid dychwelid i'r Ysbyty am gyfnod hir o tua deg mis, yna dod adre cyn y diwedd. Edmygwyd Elsie yn fawr wrth iddi deithio ato ddwywaith y dydd bryd hynny, er holl gyfyngiadau Cofid ag heolydd caeedig. *Arwyn 2023*

Y Clwb Cant

Tynnir enillwyr misoedd Medi, Hydref a Thachwedd ynghyd a'r un fawr Nadolig ar y 27ain o Dachwedd yn y Neuadd Goffa. Aaronjones86@hotmail.com

Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo



Rhys, Catrin and Kieran

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd Goffa ar y 7fed o Fedi pan etholwyd y swyddogion canlynol.

Cadeirydd - Derick Lock. Ysgrifenyddes - Jill Edwards

Trysorydd - Gethin Edwards. Archwilydd - Huw Williams

Capten - Rhys Williams

Is-gapten - Peter Giles

Swyddogion Diogelwch y Clwb - Derick Lock a Huw Williams

Lluniaeth adeg Chwarae - Jill Edwards.

Dymuna'r Clwb ddiolch i Gronfa Elusennol Fferm Wynt Brechfa am ariannu crysau newydd chwarae a hefyd offer mesur i'r Dyfarnu, hyn oll gogyfer a'r tymor newydd. Mae'n holl bwysig i'r gymuned fod y Clwb sylfaenwyd yn 1989 yn parhau i ffynnu ym mywyd y pentref.

Cychwynnodd y tymor newydd ar nodyn cadarnhaol gyda buddugoliaeth 9-1 ym Mhenygroes ac un arall 9-1 adre' erbyn Gelli House. Yna 8-2 adre' eto erbyn Llangyndeyrn a 10-0 lawr yng nghlwb Bowlio Dinefwr. Hir oes i'r fath fuddugoliaethau!

Llongyfarchwn Catrin Williams a Jill Edwards ar gael eu dewis i Gymru, fel rhan o sgwad o dri deg o ferched i'r Gystadleuaeth Brydeinig gyntaf. Byddant yn cystadlu erbyn merched Iwerddon, Yr Alban a Lloegr yn Melton Mowbray.

Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30yh tan 9.30, tan ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o 16 oed hyd 99, ac mae yna hyfforddwy trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli.

Ceir mwy o wybodaeth drwy ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 253474.

Cynllun Bwydo ein Cymuned

Buom yn brysur y mis hwn yn cyflwyno sesiynau dylunio yn Neuadd Llanpumsaint gan ymchwilio Beth yw Dylunio para maethu?. Archwiliwyd hefyd ein gweledigaeth o'r ardaloedd gwyrdd sy'n bodoli yn y Cae Chwarae gan edrych ar leoliadau a phobl. Cynhelir y sesiwn dylunio terfynol ar **Nos Iau 26ain o Hydref** rhwng 5.30 a 7.30yh yn Ystafell Gyfarfod y Neuadd, dan arweiniad Louise Cartwright a Caz Wyatt. Bryd hynny byddwn yn dadansoddi ein casgliadau gan osod ein dyluniadau dewisol ar fap. Bydd lluniaeth ar gael i'n hysbrydoli. Croeso i bawb - dim angen bwcio ymlaen llaw jyst dewch!

Louise Cartwright - Swyddog Project - Ffeindiwch ni ar Facebook

Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mae dewinio yn arferiad diddorol, a gall unrhyw un ei wneud. Credir iddo ddatblygu o'r Aifft neu hyd yn oed cyn hynny. Bydd nifer o gwmnïoedd yn defnyddio dewinwyr i ganfod dŵr, mwynau, olew neu wifrau trydan. Bydd rhai yn dewinio i ganfod iechyd eu bwydydd, neu olrhain straen geopathi eu hamgylchedd, ond ar hyn o bryd cred bersonol yw hyn heb fendith gwyddonol. Pam na ddewch chi atom i ddysgu mwy? Fel arfer mae gennym amser i siarad ar ddiwedd cyfarfod neu'n well fyth dewch gyda ni ar un o'n teithiau.

Cynhelir cyfarfodydd ar ddydd Sul am 1.45 pm ar gyfer 2 pm cychwyn yn Neuadd Bronwydd:

- Sul 22ain Hydref - Tom Bennet - Sir Benfro Neolithig - ac os fydd amser hoffai rannu ei angerdd diweddaraf - sef sut symudwyd Carreg Allor Côr y Cewri 650 o filltiroedd o ynysoedd yr Orcni i'w safle presennol.
- Sul 26ain Tachwedd - Ross Briagga - Mae'n ddewin wraig brofiadol a hi yw ein Hysgrifenyddes Siaradwyr ac yn aelod hir dymor. Mae'n awyddus i gadw pennawd ola'r tymor yn gyfrinachol hyd yn agos i'r dyddiad, i'n cadw yn y tywyllwch. Bydd hwn ein cyfarfod olaf o'r flwyddyn yn gweld y mins peis traddodiadol yn ochr y paned o de.
- Rhagfyr – Dim cyfarfod

Oherwydd y chwyddiant ariannol codir yr aelodaeth i £20 y flwyddyn. Pris mynediad fydd £6 i gynnwys y raffl os nad ydych yn aelod, £10 am yr ail dro - yna disgwylir i chi ymuno. Dim angen cyfarpar jyst dewch!

Facebook – gwefan <http://wetwalesdowers.org.uk> neu ffoniwch Sandy 01267 253547 hefyd westwalesdowsera@gmail.com

Clwb Gwili Chwedeg

Bu'n bleser croesawu Brian Jones ar ddydd Llun 25ain o Fedi. Soniodd iddo adael ysgol yn 16eg oed i weithio ar y fferm adre', ond datblygodd i fod yn un o brif gwmnïau gwasanaethu cyflenwi bwyd. Cawsom storiâu difyr amdano'n cadw ffowls i fasnachu'n lleol cyn yn y diwedd sefydlu cwmni wnaeth dyfi i fod y Castell Hywel enwog erbyn hyn. Mae ei angerdd am y byd busnes yn dal mor gryf ag erioed, ond erbyn hyn yn canolbwyntio ar yr ochr gynhyrchu o'r fenter. Siaradodd yn deyrngar am ei staff, ei ymrwymiad i wasanaethu'r cwsmer, a'i wreiddiau Cymreig sy'n rhedeg drwy'r holl beth. Mae Clwb Gwili hefyd yn diolch iddo am y rhodd hael o ddanteithion wnaeth pob aelod dderbyn ar y dydd.

Rydym yn cyfarfod yn Neuadd Bronwydd am 2o'r gloch ac mae'r maes parcio yn aml brysur.

- Llun 23ain Hydref - Cymdeithas Cadw Gwenyn Sir Gar
- Llun 6 - 10fed Tachwedd - Taith Twrci a Thinsel
- Llun 27ain Tachwedd – Yr aelod Eddie Whitehead – Gwirionedd Anghyfleus
- Mercher 6ed Rhagfyr - Cinio Nadolig yn y Gwbert Ceredigion
- Llun 2ail Ionawr 2024 - Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

Aelodaeth bellach yn £10 – Mynediad £2 yn cynnwys tocyn raffl.

Gwybodaeth bellach gan yr Ysgrifenyddes Val Giles 01267 281194

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Cynhelir y cyfarfod nesaf o Gyngor Cymuned Llanpumsaint ar y 14eg Tachwedd yn y Neuadd Goffa. Mae ein cyfarfodydd oll yn agored i'r cyhoedd a chyhoeddir yr agenda a munudau'r Cyngor ar ein gwefan wythnos cyn y cyfarfod - www.llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/en

A ydych yn gofalu am rywun gyda Dementia (Gorddryswch) neu yn dioddef ohono.

- A fydddech angen cyngor er mwyn ceisio am fudd-daliadau oherwydd yr anhwylder?
- A allaf eich cymorth drwy' sefyllfa anodd yma?
- A fydddech yn awyddus i drafod y sefyllfa gyda mi?
- A ydych yn sylweddoli pwysigrwydd Atwrneiaeth Arhosol?

Fy enw yw Charlotte ac mae gennyf flynyddoedd o brofiad gweithio gyda theuluoedd dioddefwyr gorddryswch, a hyfforddi staff i Gartrefi Gofal, Gofal Preswyl a Meddygfeydd. Byddaf hefyd yn trafod gorddryswch gyda mudiadau fel Rotary, Lions a chanolfannau dros chwedeg.

'Rwy'n byw yn Llanpumsaint ac yn hapus i deithio rhywle o fewn deg milltir neu groesawu rhywun yma i'm cartref.

Galwch fi ar 07814477861 i drafod ymweliad neu ystyried y tal am hyfforddi grŵp.

Swper y Cynheuf

Dymuna Eglwys Llanpumsaint ddiolch i bawb ddaeth i gefnogi Swper y Cynhaeaf. Daeth y gymuned leol a phentrefi cyfagos allan yn gryf ar y noson ac mor braf oedd cyd-gyfarfod ac wynebaw cyfarwydd â newydd. Bu ymateb pawb yn hwb i noson gofiadwy o bleserus.

Rhaid cydnabod yn arbennig y rhai a fu mor gefnogol yn coginio, gwneud pwddin a danteithion, rhoi gwobrau raffl ac yn ola'pawb a fu'n cynllunio a threfnu noson mor hwylus. Diolch hefyd i Gronfa Elusennol Fferm Wynt Brechfa am gefnogi'r fenter. *Edrychwn ymlaen at eich gweld chi oll y flwyddyn nesaf.*

Yn ychwanegol i'r gwasanaethau arferol ar fore Sul am 9 o'r gloch, mae gennym y **Caffi Bach** di-enwadol ar ddydd Mawrth o 11.30yb hyd 2.30yp, **Chwaraeon Duwiol** i'r plant o 3.30 tan 5 o'r gloch. Mae **Cylch DOTS** yn cyfarfod ar ddydd Iau o bump hyd 7 o'r gloch dan arweiniad y Parch Christie.

Digwyddiad i'r dyfodol. Ymunwch a ni am **mins peis a gwin cynnes ar nos Sadwrn Zail o Ragfyr** o 6 tan wyth o'r gloch yn yr Eglwys. Gwyliwch am bosteri yn y pentref yn nes ymlaen.

Pwyllgor Eglwys Llanpumsaint

Blwyddyn Ysgol newydd – Ysgol Llanpumsaint



Bu nifer o newidiadau i'r ysgol ar ddechrau'r tymor. Croeso cynnes i Mrs Wendy Smith a Miss Nia Davies i'r ysgol. Croeso hefyd i'r 6 disgybl newydd sydd wedi dechrau gyda ni yn yr ysgol.

Cynhaliwyd nifer o ddiwyddiadau cyffrous yn barod. Cafwyd prynhawn arbennig yng nghwmni Meleri yn dangos i ni sut mae cadw'r corff a'r meddwl yn iach drwy gyfrwng adweitheg. Roedd pawb wedi ymlacio'n llwyr. Diolch i ti Meleri.

Noson wych o gystadlu ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Sir Gaerfyrddin. Da iawn i bawb a gymerodd rhan. Ffantastig! Diolch i'r rhieni a'r brodyr a chwiorydd am gefnogi.



Llongyfarchiadau enfawr i Hari a Wil am gael eu dewis i chwarae rygbi i dîm Ysgolion Cymru yn ardal Caerfyrddin yn ystod y tymor 2023-24. Am lwyddiant!


Mae yna dipyn i edrych ymlaen at hefyd:

- **Bydd Cwrdd Diolchgarwch** Ysgol Llanpumsaint yn eglwys Llanpumsaint ar ddydd Mercher Hydref 18fed am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.
- **Bydd noson Bingo Calan Gaeaf** wedi ei drefnu gan y GRhA yn Neuadd y Pentref ar nos Fawrth Hydref 24ain am 6 o'r gloch.
- **Bydd sioe Nadolig** Ysgol Llanpumsaint yn Neuadd y Pentref Nos Fawrth Rhagfyr 12fed. Cadwch lygaid allan am y posteri am fwy o wybodaeth.

Clare Kelly - Headteacher

Gweithgareddau Neuadd Llanpumsaint

Neuadd Llanpumsaint yn cyflwyno
Llanpumsaint Hall presents



*Elvis
Presley*

Tribute Night

NOS SADWRN	SATURDAY
21 HYDREF	21 OCTOBER
2023	2023
7.30YH	7.30PM

Tocyn - Ticket
£15

I ARCHEBU TOCYNNAU CYSYLLTWCH A-
TO ORDER TICKETS PLEASE CONTACT -
MATHEW JONES - 07970030679

Defnyddir y Neuadd bob dydd gan gynnwys y penwythnosau hefyd. Cofnodir y prif ddigwyddiadau yn y Dyddiadur. Mae'r nosweithiau yn cynnwys **Bowlio Dan-do, Zumba, Cwis, Tafarn Bach, a Chodi Can (27ain Hydref, 3dd a 24ain Tachwedd, 1af Rhagfyr). Cyfarfu'r Cwtsh Cynnes** bob dydd lau o 10yb tan 1 yp, am weithgareddau amrywiol, clonc a chawl cartref.

Gwelir cerbyd y Llyfrgell y tu allan (a hefyd ger yr hen Swyddfa Bost) unwaith bob tair wythnos, (ynghyd ar wasanaeth casglu poteli a bagiau du 10.45 - 11.45). Dyma wasanaeth buddiol - gellir archebu llyfrau. DVDs a llyfrau llafar ymlaen llaw ar y We, cyn cael eu derbyn yma. Bydd y Cyngor yn cynnig dod a nhw i'r drws i'r analluog i'w casglu.

Dyddiadau eraill i'r Neuadd:

- **Noson Deyrnged Elvis Desley** – 21ain Hydref – 7.30 tocynnau £15
- **Gwasanaeth Sul y Cofio** - Sul 12fed Tachwedd 10.45yb - Croeso i bawb.
- Nos Wener 9fed Rhagfyr **Coeden Nadolig a Charolau** - 6 o'r gloch
- Sadwrn 10fed Rhagfyr – **Ffair Nadolig** – I'w gadarnhau gyda'r Pwyllgor.

Nosweithiau Disco

- **Nos Sadwrn 18fed Tachwedd - Noson Disco'r Ugeinfed Ganrif.** Dros 18 oed yn unig. - Dawnsio i gerddoriaeth gorau'r 60 - 70 - 80 - 90degau dan reolaeth Ray a Nikki Squires. Drysau'n agored am 7 i barhau tan hanner nos. Croeso i bawb - mynediad £2 wrth y drws - i dalu am fenthyg y Neuadd gydag unrhyw elw iddi hefyd. Bydd Bar Matthew Palu ar gael a lluniaeth bellach gan Arlwygo Steve - neu dewch a'ch lluniaeth eich hunan. Ewch amdani!!!
- **Sul 31ain Rhagfyr - Gweld yr hen flwyddyn 2023 allan a chroesawu'r newydd gyda theulu a chyfeillion yn sŵn y Disco.** Croeso i bawb o 7 o'r gloch tan 1 y bore yn swm Criminal Records. Trefnir gan Ray a Nikki Squires. Gwisgo lan yn ddewisol. Dewch a'ch lluniaeth eich hunan, gyda'r mynediad i dalu am y Neuadd a'r elw i Ysgol Llanpumsaint. Diolch yn fawr!

Cwtsh Cynnes yr Hydref

- **Digwyddiad Celfyddydol** gefnogwyd gan Gofal Celf a Chronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa - Celf Wifren (5ed Hydref) - Gemau (19eg Hydref).
- **Gweithgareddau celf gan ein haelodau.** - Creu Tawasni (Hydref) - Celf Caregan (26ain - Hydref)) - Braslunio a Chrosietti (16eg Tachwedd) - Gwialen Wau (30ain Tachwedd)
- Ac os nad ydych â diddordeb yn y celfyddydol gellwch chwarae gemau neu droi at y cardiau ar y 12fed o Hydref neu ymuno a'r caneuon Nadoligaidd ar y 12fed O Ragfyr.

Nodwch fod y gweithgaredd **Gwneud Masgiau yn digwydd adeg Hanner Tymor** (2ail Tachwedd) - **Croeso i'r plant gydag oedolyn!**



Noson Cwis

Daw cynulleidfa dda o hyd i'r nosweithiau Cwis yn y Neuadd ar y drydedd Nos Wener o'r mis. Diolch pawb am gynnal eu cefnogaeth. Symudwyd y Cwis Anhygoel Calan Gaeaf i'r Nos Wener Bwci 13ain, hyn er mwyn gadael pobl i wylïo'r rygbi Cwpan y Byd ar yr 20fed o Hydref.

Daw'r Cwis nesaf wedyn ar y 17eg o Dachwedd. Yna cwis ola'r flwyddyn ar y 15fed o Ragfyr - dyma achlysur arbennig y Nadolig gyda thema dymhorol, gwobrau ychwanegol, a datgelu enillwyr yr holl fenter. Ar hyn o bryd mae yna wyth Tîm gyda chyfartaledd rhwng 68.9 a 62.5, felly cyfle iddynt oll gyrraedd y brig.

Nid o reidrwydd ond gellir bwcio ymlaen llaw i sicrhau'r lle, oherwydd gall y seddau lenwi'n gyflym. Bydd E-bost i sara.ward4@btinternet.com yn ddigonol. Edrychwn ymlaen at eich gweld!

Cylchoedd eraill o ddiddordeb yn yr ardal

Cylch Gwynio - cyfarfod yn Neuadd Bronwydd ar ddydd Mawrth o 1 o'r gloch tan 3. £2 i gynnwys paned a bisgedi. Croeso atom am wau a chlonc. Paula Carpenter

Rydym yn hapus i gyhoeddi manylion am unrhyw gylch neu fudiad perthnasol
carolynsmethurst@btinternet.com



- **Siaradwyr Newydd:** Mae Coffi a Chlonc yn ôl! Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd lau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru. Mae'r Fenter yn cyd-drefnu sesiynau Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Atom, bob dydd Mawrth o 10-11yb. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned. Croeso i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl i ymuno. Cynhelir sesiynau Paned a Phapur yn yr Amgueddfa Wlân, Drefach Felindre ar ddydd Mercher bob pythefnos. Croeso i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl i ymuno yn y sesiynau hwylus yma. Bydd sesiynau newydd Shwmae a Siarad yn cael eu cynnal unwaith y mis ar fore Gwener yng Nghaffi Cwtsh Coffi, yr hen glwb pêl-droed, Castell Newydd Emlyn rhwng 10:30-11:30. Fydd y sesiwn gyntaf ar y 13.10.23. Edrych ymlaen i'ch gweld yno.
Am unrhyw wybodaeth am ein sesiynau, cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru.
- **Clybiau Drama:** Mae'r Fenter a Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3 ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn y Stiwdio, Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Cyfle i blant dysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch gydag betsan@mgsg.cymru. Diolch i Theatrau Sir Gâr am y croeso cynnes i'r theatr yn wythnosol.
- **Sesiynau stori:** Mae ein sesiynau stori yn ôl ar ôl saib yr Haf. Bob pythefnos, fydd sesiwn stori yng Nghaerfyrddin ar ddydd Llun yn Llyfrgell Caerfyrddin am 10:30am. Yn San Clêr, fydd sesiwn stori ar ddydd lau yn Llyfrgell San Clêr, Y Gât am 1:30pm. Ymunwch â ni yn y sesiynau stori yma. Cysylltwch gyda gwyneth@mgsg.cymru i gofrestru neu am wybodaeth pellach.
- **Dished Ddigidol:** Wrth gyd-weithio gyda'r Atom, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn cynnal sesiynau digidol anffurfiol dros ddished. Gellir dderbyn cymorth gyda thabled, iPad, gliniadur, ffôn symudol, apiau a sut i ddefnyddio'r wê. Dyddiadau mis Hydref fydd y 6ed ar 20fed am 10-12pm. I archebu lle neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â helo@yratom.cymru neu ymholiad@mgsg.cymru.

Cornel Resait

Cawl Moroco a cywpis (by Anji)

Cynhwysion

- 2 lwy ford olew Hadrep
- 1 winwnsyn wedi ei fan dorri
- 2 ddarn o arlleg wedi ei fan dorri
- 1 llwyed o cwmin
- 3 llwyed o bast Harrisa
- 1 llwyed o fel neu syrrip
- 2 llwyed o deyrn wedi ei fan dorri
- 150 gram o bysen felen
- 400 gram o cywpis sych
- 400 gram o domatos tin
- 750ml o isgell llysieuog
- 75 gram o ddail pigoglys
- Chorizo (yn ddewisol)

Cyfarwyddiadau

1. Cynheswch yr olew mewn sosban gan goginio'r winwnsyn yn raddol am ryw bum munud nes iddo feddalu. Ychwanegwch y garlleg a'r cumin i goginio am funud ychwanegol. Cymysgwch y past Harrisa, y mêl gyda'r syrrip a'r teyrn, gan goginio eto am funud arall.
2. Ychwanegwch gan gymysgu'r bysen felen, y cywpis, tomatos a'r isgell lyseiog. Coginio am 20 munud nes i'r bysen felen fod yn barod.
3. Yna'n derfynol ychwanegwch y dail pigoglys a'i droi nes iddo wywo. Wedyn i'r ford fwyta gyda bara tost toes sur, a gallwch ychwanegu mwy o Harrisa os dymunir